YMDDIRIEDOLAETH YNYS ENLLI BARDSEY ISLAND TRUST

| Swydd: Warden Llety x 2 | Role: Accommodation Warden x 2. |
|---|---|
| Rydym yn ceisio cyflogi 2 unigolyn a fydd yn ymgeisio gyda'u gilydd o fewn yr un cais, i fyw a gweithio gyda'u gilydd.<br>**Oriau**: 20 awr yr wythnos (fesul unigolyn)<br>**Cyflog**: £11.44 yr awr<br>**Lleoliad**: Ynys Enlli – darperir llety<br>**Cyfnod**: 1 Mawrth – 30 Hydref 2024: Cyfnod penodol<br>**Buddion**: 1 taith cwch i'r tir mawr bob mis, rhannu gardd i dyfu bwyd, cysylltiad gwe | We are seeking joint applications from 2 individuals who will live and work together.<br>**Hours**: 20 hours a week (per person)<br>**Salary**: £11.44 an hour<br>**Location**: Bardsey Island - accommodation provided<br>**Term**: 1 March – 30 October 2024. Fixed term<br>**Benefits**: 1 boat trip to mainland per month, shared food growing space provided, internet connection |
| **GWYBODAETH I YMGEISWYR**<br><br>• Rhaid i bob cais ar y cyd gynnwys CV byr a llythyr eglurhaol ar gyfer y ddau ymgeisydd, yn rhoi manylion o'r sgiliau a'r profiad sydd gennych ac sy'n eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd hon.<br>• Dylid anfon ceisiadau at SwyddiEnlli@gmail.com neu yn y post i Swyddfa Enlli, Blwch Post BOX 79, Pwllheli, Gwynedd, LL53 9AT<br>• Dyddiad cau ceisiadau: **17.00, Ionawr 9, 2024**<br>• Cynhelir cyfweliadau yn ystod y bythefnos olaf yn Ionawr 2024.<br>• Bydd ymgeiswyr trwy e-bost yn derbyn cydnabyddiaeth derbyn y cais.<br>• Os byddwch wedi eich dewis ar gyfer cyfweliad, cewch eich hysbysu trwy e-bost.<br>• Oherwydd y nifer uchel o geisiadau byddwn yn eu derbyn, ni fyddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr aflwyddiannus. | **INFORMATION FOR APPLICANTS**<br><br>• Each joint application must include a brief CV and covering letter for both applicants giving details of the skills and experience that you have which make you suitable for this post.<br>• Applications should be sent to SwyddiEnlli@gmail.com or by post to Bardsey Office, PO BOX 79, Pwllheli, Gwynedd, LL53 9AT<br>• Closing date for applications: **17.00 on 9th January 2024**<br>• Interviews will be held during the last 2 weeks of January 2024.<br>• Applicants by e-mail will receive an acknowledgement of receipt.<br>• If you have been selected for an interview, you will be notified by e-mail.<br>• Due to the large number of applications we receive, we will not be contacting unsuccessful applicants. |

| SWYDD DDISGRIFIAD WARDEN LLETY | ACCOMMODATION WARDEN ROLE DESCRIPTION |
|---|---|
| **1.** Bod yn rhan o gymuned yr ynys, yn byw ac yn gweithio gyda phobl eraill, o fewn Ymddiriedolaeth Ynys Enlli a sefydliadau a busnesion sy’n gysylltiedig ac Enlli.<br>**2.** Cynnal llety gwyliau i safon uchel ar gyfer gwyliau wythnosol a byr trwy gydol y tymor ymwelwyr. Sicrhau fod yr holl eitemau angenrheidiol ar gael ym mhob tŷ a'u bod yn gweithio fel bo angen.<br>**3.** Yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl nwyddau ar gyfer y llety wedi'u stocio'n dda a bod y storfeydd yn cael eu cadw mewn trefn.<br>**4.** Sicrhau y darperir profiad ardderchog i ymwelwyr, gan groesawu ymwelwyr wythnosol a'r rhai sydd ar wyliau byr, gan ymateb i geisiadau drwy gydol eu gwyliau. Mae hyn yn cynnwys sgwrs groeso ar ddechrau gwyliau a ‘sgwrs ffarwel’ ar ddiwedd eu gwyliau, yn ogystal â chasglu data am eu profiad.<br>**5.** Darparu gwybodaeth am yr ynys ac Ymddiriedolaeth Ynys Enlli i ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd, tra’n annog aelodaeth Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.<br>**6.** Yn gyfrifol am sicrhau bod y toiled cyhoeddus yn cael ei lanhau a'i hailstocio bob dydd a'i gynnal yn wythnosol yn ôl yr angen.<br>**7.** Yn gyfrifol, ar y cyd a Rheolwr yr Ynys (a gyda chymorth gwirfoddolwyr) am sicrhau bod yr holl fannau cymunedol e.e. Capel, Ysgol, Siop, yn lân ac yn cael eu cadw i safon dda.<br>**8.** Yn gyfrifol, ar y cyd a Rheolwr yr Ynys (a gyda chymorth gwirfoddolwyr) i gynnal y gerddi.<br>**9.** Ym mis cyntaf y rôl byddwch yn gweithio gyda Rheolwr yr Ynys a gwirfoddolwyr i baratoi’r tai i safon uchel ar gyfer y tymor gwyliau<br>**10.** Goruchwylio gwirfoddolwyr am dau ddiwrnod yr wythnos. | **1.** Be part of the island community, living and working with others, both within the Bardsey Island Trust and other organisations and businesses associated with Bardsey.<br>**2.** Maintain holiday accommodation to a high standard for weekly and short breaks in a clean and tidy manner throughout the visitor season. Ensure that all necessary items are available in each house and are in working order.<br>**3.** Responsible for ensuring all consumables for accommodation are well stocked and the stores are kept in good order.<br>**4.** Ensure delivery of an excellent visitor experience, welcoming weekly visitors and those on short breaks, responding to requests throughout their holidays. This includes a welcome talk at the start of stays and a ‘farewell talk’ at the end of their stays, as well as collecting data about their experience during their visit.<br>**5.** Provide information about the island and the Bardsey Island Trust to overnight visitors and day visitors whilst encouraging Bardsey Island Trust membership.<br>**6.** Responsible for ensuring the public toilet is cleaned and restocked daily and maintained weekly as necessary.<br>**7.** Responsible, alongside the Island Manager (and with volunteer help) for ensuring all community spaces e.g., Chapel, School, Shop, are clean and kept to a good standard,<br>**8.** Responsible, alongside the Island Manager (and with volunteer help) for maintaining the gardens. |

YMDDIRIEDOLAETH YNYS ENLLI BARDSEY ISLAND TRUST

| | |
|---|---|
| **11.** Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol i’r swydd hon sy’n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid.<br>**12.** Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd perthnasol arall ar yr ynys.<br><br>Bydd gwirfoddolwyr tymor hir ar yr ynys drwy gydol y tymor i gynorthwyo gyda’r glanhau (sy’n digwydd bob dydd Sadwrn ac ambell ddydd Mawrth/Mercher).<br><br>Bydd gwirfoddolwyr tymor hir ar yr ynys drwy gydol y tymor i gefnogi’r glanhau (sy’n digwydd bob dydd Sadwrn ac ambell ddydd Mawrth/dydd Mercher). Mae angen o leiaf dri o bobl ar gyfer newid drosodd ar ddydd Sadwrn ac yn aml cânt eu cynnal o fewn cyfnod byr rhwng cychod yn gadael ac yn cyrraedd.<br><br>**SYLWCH**: Bydd gwirfoddolwyr yn byw drws nesaf i’ch llety yn ystod y tymor gwyliau. | **9.** In the first month of the role, you will be required to work with the Island Manager and volunteers to prepare the houses to a high standard for the letting season.<br>**10.** Supervise volunteers for two days a week.<br>**11.** The ability to speak Welsh is essential for this customer facing role.<br>**12.** Undertake any other relevant activity on the island.<br><br>There will be long-term volunteers on the island throughout the season to support the cleaning (which takes place every Saturday and occasional Tuesdays/Wednesdays). Saturday changeovers require at least three people and are often conducted within a short time frame between boats leaving and arriving.<br><br>**NOTE**: Volunteers will also be living adjacent to your accommodation during the season. |
| **GWYBODAETH ARALL**<br><br>Darperir llety i chi rannu gyda’r warden arall; h.y. bydd disgwyl i'r ddau warden llety fyw gyda'i gilydd, gydag ystafell wely yr un os bydd angen.<br><br>Mae'r ynys oddi ar y grid, sy'n golygu bod trydan cyfyngedig ar gael i redeg golau, rhewgell / oergell a’r cysylltiad we; darperir hyn gan baneli solar. Defnyddir nwy Calor i goginio ac mae dŵr yfed yn cael ei redeg i'r llety o ffynnon yr ynys. Mae yna gawod sylfaenol ond dim dŵr poeth o’r tap tu mewn; mae toiled compostio y tu allan yn yr iard a darperir man cawod breifat awyr agored. | **OTHER INFORMATION**<br><br>Shared accommodation is provided, i.e., both accommodation wardens will be expected to live together, with separate bedrooms if requested.<br><br>The island is off-grid, meaning that there is limited electricity which is able to run a light, fridge freezer and internet router; this is provided by solar panels. Cooking is by gas and drinking water is run to the accommodation from the island’s well. There is a simple shower but no indoor running hot water; a composting toilet is located outside in the yard and an outdoor showering area is provided. |

YMDDIRIEDOLAETH YNYS ENLLI BARDSEY ISLAND TRUST

| | |
|---|---|
| Disgwylir i chi archebu a threfnu cludiant am eich bwyd ac unrhyw eitemau personol eraill eich hun. Mae cyfle i gael darn o dir i dyfu llysiau a ffrwythau.<br><br>Bydd peiriant golchi dillad ar gael ar ogledd yr ynys.<br><br>Bydd offer addas, gan gynnwys yr holl offer diogelwch personol ar gyfer eich anghenion gwaith yn cael eu cyflenwi.<br><br>Rheolwr yr Ynys bydd eich rheolwr llinell.<br><br>Bydd Rheolwr yr Ynys yn darparu hyfforddiant yn ystod eich wythnosau cyntaf, yna bydd disgwyl i chi gyflawni'r dyletswyddau ar eich pen eich hunain. | You will be expected to order and arrange delivery of your own food and any other personal items. There is an opportunity to have a vegetable patch to grow your own fruit and veg.<br><br>A washing machine will be provided at the northern end of the island.<br><br>Suitable equipment, including all PPE, for your work needs will be supplied.<br><br>Your line manager will be the Island Manager.<br><br>Training will be provided by the Island Manager during the first weeks of your appointment, you will then be expected to carry out the duties independently. |
| **GWYLIAU**<br><br>Rhoddir lwfans gwyliau blynyddol yn unol â'r hawl statudol.<br>Gellir cymryd gwyliau ar benwythnosau neu ar ddiwrnodau newid drosodd canol wythnos gydag o leiaf 4 wythnos o rybudd er mwyn trefnu rhywun i wneud y gwaith yn eich lle. Ni ellir cymryd gwyliau dros sawl penwythnos oni bai fod amgylchiadau eithriadol ac os gellir dod o hyd i rywun i wneud y gwaith yn eich lle. | **LEAVE**<br><br>Annual leave allowance in accordance with the statutory entitlement will be given. Leave at weekends or on mid-week changeover days may be given upon a minimum of 4 weeks' notice in order that suitable cover may be arranged. Leave may not be taken over multiple weekends unless in exceptional circumstances and if suitable cover can be found. |

| HANFODOL | ESSENTIAL |
|---|---|
| • Rheolaeth ardderchog o ran amser a llwyth gwaith<br>• Agwedd hyblyg tuag at oriau/diwrnodau gwaith. (Dylai newidiadau ddigwydd ar ddydd Sadwrn a dydd Mawrth/dydd Mercher, ond mae hyn yn dibynnu ar y tywydd)<br>• Hunan-gymhelliant / gwydnwch<br>• Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg<br>• Y gallu i weithio ar eich pen eich hun ac mewn tîm<br>• Ymagwedd bersonol dda a'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gryno ac ymdrin yn sympathetig ag ymholiadau ymwelwyr, cwynion, a cheisiadau am wybodaeth.<br>• Angen byw mewn llety a rennir gyda Warden Llety arall | • Excellent time and workload management<br>• A flexible approach towards working hours/days. (Changeovers should happen on Saturdays and Tuesdays/Wednesdays, but this is weather dependent)<br>• Self-motivating / resilience<br>• Fluent in Welsh and English<br>• Ability to work alone and in a team<br>• Good personal manner and the ability to communicate clearly and concisely and deal sympathetically with visitor queries, complaints, and requests for information.<br>• Required to live in shared accommodation with other Accommodation Warden |
| **DYMUNOL** | **DESIRABLE** |
| • Gwybodaeth am Ynys Enlli<br>• Galluoedd ymarferol mewn mân waith adeiladu, cynnal a chadw ac addurno<br>• Profiad o gadw / glanhau tŷ gwyliau<br>• Trwydded yrru<br>• Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr<br>• Profiad o waith sy'n delio â chwsmeriaid<br>• Y gallu i addasu i amgylcheddau newydd a newidiol<br>• Profiad o rannu fflat / cyd-fyw | • Knowledge of Bardsey Island<br>• Practical abilities in minor building works, maintenance, and decorating<br>• Experience of housekeeping in a holiday let setting<br>• Driving license<br>• Experience of working with volunteers<br>• Experience of customer facing work<br>• The ability to adapt to new and changing environments<br>• Experience of flat-sharing / co-inhabiting |